


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref **a gynhaliwyd yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan a thrwy gyfrwng Microsoft Teams am 19.00** **Hydref 12 2021**

Presennol :- Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Ian Wyn Jones, Richard Williams, Linda Wyn Roberts, Carol Hayes, Gwilym Jones, Alwyn Gruffydd, Aled Griffith, Dr Melfyn Edwards

128.10.21 Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr :- Nia Jeffreys, Malcolm Humphreys, Dr Simon Brooks, Stuart Nashir-Hallard

129.10.21 Adroddiad y Cadeirydd.

Dechreuodd y Cadeirydd drwy ddiolch i'r Cynghorwyr am fynychu'r cyfarfod wyneb-yn-wyneb cyntaf ers blwyddyn a hanner. Diolchodd i'r Clerc am ei gwaith yn sicrhau fod y dechnoleg mewn lle ar gyfer y cyfarfod hybrid yma a bod y lleoliad wedi ei baratoi i gydfynd â rheolau Cofid. Dywedodd fel yr oedd y cyfnod diweddar wedi bod yn anodd a diolchodd i'r Cynghorwyr am fod yn arloesol a dewr yn mynychu'r cyfarfodydd rhithiol.

Diolchodd i'r Cyng Ian Jones am roi o'i amser i chwynu'r grisiau i fynedfa Bryn Coffa. Roedd wedi derbyn llythyr o ganmoliant i'r gwersi Cymraeg gan gwpwl sydd wedi cael modd i fyw gyda'r gwersi a diolchodd i'r Cyng Carol Hayes am ei gwasanaeth fel tiwtor y Gymraeg ac i'r Clerc am gydlynu'r dosbarthiadau. Braff oedd derbyn adborth positif i weithgareddau'r Cyngor Tref a braff gweld y Cyngor Tref yn cyfrannu mewn modd mor gadarnhaol i'r gymuned leol.

Dywedodd fel y mae wedi tawelu yn y dref ond bod prysurdeb yn parhau ar benwythnosau. Roedd yn synnu at faint o ymwelwyr oedd yn dal i ymweld â'r ardal ond yn derbyn fod y prysurdeb yn dda i fusnesau lleol. Er fod sefyllfa Cofid yn parhau yn argyfyngus yn yr ardal roedd yn croesawu'r ffaith fod cyfle i bobl dderbyn y pigiad "booster" erbyn hyn. Diolchodd i weithwyr y gwasanaeth iechyd ac i'r holl wirfoddolwyr sydd yn gweithio mor galed i ddarparu'r gwasanaeth brechu.

130.10.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

➤ Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Medi 14 2021

Cafwyd un cywiriad gan y Cyng Ian Jones i gofnod 105.9.21 wrth nodi fod A.J.Blakemore yn danfon nwyddau i siop Spar yn "ddyddiol" yn hytrach na "unwaith yr wythnos". Ar ôl derbyn y cywiriad cafwyd y cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Jones yn eilio.

131.10.21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Llywelyn Rhys:- 150.10.21 Gohebiaeth 11 Cyfoeth Naturiol Cymru
Ar gontract cyflogaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

Materion i'w dwyn gerbron :-

132.10.21 Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- Cofnodi fideo / recordiad llais o gyfarfodydd ar gyfer cywirdeb cofnodi cofnodion a thryloywder.

Nodwyd fod y cynnig yma wedi bod ar y Rhaglen dair gwaith yn olynol ac oherwydd absenoldeb y Cyng Stuart Nashir-Hallard penderfynwyd tynnu'r cynnig oddiar y Rhaglen.

133.10.21 Cynnig Cyng Richard Williams :- ail-ddechrau cyfarfodydd efo cynrychiolwyr o'r Heddlu

Nodwyd fel yr oedd gan y Cyngor Tref Is-Bwyllgor yn y gorffennol oedd yn cyfarfod gydag aelodau o'r Heddlu ond fod y cyfarfodydd wedi peidio a chymryd lle ers 5 mlynedd bellach.

Nodwyd fod Porthmadog wedi cael Sarjant ac Inspector newydd yn ddiweddar ac y byddai'n dda cael eu cyfarfod.

Penderfynwyd :- gyrru llythyr yn eu gwahodd nhw i annerch y cyfarfod Pwyllgor Llawn o'r Cyngor Tref ym mis Rhagfyr.

134.10.21 Cyng Llywelyn Rhys :- Diweddariad ar sefyllfa cynrychiolaeth Ysgol Eifion Wyn

Mae'r Cyng Llywelyn Rhys yn parhau i aros am gyfle i gael sgwrs â Phennaeth yr ysgol ynglyn â'r mater yma. Bydd Corff Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn yn cyfarfod ar 20.10.21 a gobeithia'r Cyng Llywelyn Rhys ddatrys y mater yn ystod y cyfarfod hwnnw.

135.10.21 Cynnig Cyng Alwyn Gruffydd :- Ymateb fel corff i'r ddogfen Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo a ffurflen ymateb ar-lein erbyn Tachwedd 17 2021 (wedi ebostio 25.8.21) (Gohebiaeth 4 14.9.21)

Oherwydd nad oedd y Clerc wedi derbyn copi o'r holiadur i'w ddangos ar y sgrîn er mwyn i'r Cynghorwyr ei lenwi yn y cyfarfod heno bydd rhaid ei ohirio tan y cyfarfod nesaf ar 9.11.21.

136.10.21 Llenwi'r bylchau yn nogfen (c) Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol a gafodd ei gymeradwyo yn nghyfarfod 14.9.21 (copi ynghlwm).

Nodwyd y penderfyniadau fel a ganlyn :-

	Penderfyniad 12.10.21	Cynnig / Eilio
Lwfans Cynghorwyr £150	£150 (£120 wedi Treth) oni gwrthodir	Cyng Selwyn Griffiths Cyng Aled Griffith
£500 i aelodau Is Bwyllgor	Dim taliad	Cyng Selwyn Griffiths Cyng Carol Hayes
£500 i 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol	Dim taliad	Cyng Carol Hayes Cyng Richard Williams
Costau teithio Hyd at 10k milltir	45c y filltir	Derbyn
Costau teithio dros 10k milltir	25c y filltir	Derbyn
Cynhaliaeth	£28 y diwrnod	Derbyn
Llundain dros nos	£200	Derbyn
Rhywle arall	£95	Derbyn
Gyda theulu/ffrind	£30	Derbyn
Iawndal am golled ariannol oherwydd presenoldeb	£55 hyd at 4 awr	Derbyn
	£110 o 4 i 24 awr	Derbyn
Ad-dalu costau gofal plant ac oedolion dibynnol	Hyd at £403 y mis	Derbyn
Taliad Pennaeth Dinesig hyd at £1,500	Diddymu Cronfa'r Cadeirydd a thalu'r taliad llawn (llai Treth Incwm) yn uniongyrchol i'r Cadeirydd / dim hawl ganddo wedyn i hawlio treuliau.	Cyng Selwyn Griffiths Cyng Jason Humphreys Is-Bwyllgor Cyllid 27.7.21
Taliad Dirprwy Bennaeth hyd at £500	Dim taliad	Cyng Carol Hayes Cyng Selwyn Griffiths

137.10.21 Cyng Aled Griffith - Gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd: Problem parcio yn Nhremadog - Cais am llinellau melyn ac ardaloedd i'w cyrbio i atal parcio mewn ardaloedd peryglus. (Gweler Gohebiaeth 9 a 10)

Clywyd fel yr oedd Tremadog wedi bod yn ofnadwy o brysur dros gyfnod yr haf ac er fod y cynnydd mewn ceir yn dystiolaeth o lwyddiant busnesau'r pentref roedd rhaid ystyried diogelwch trigolion Tremadog.

Penderfynwyd :-

- gweithredu yn ôl y cynnig
- ychwanegu copi o'r lluniau (Gohebiaeth 8 a 9)
- gofyn i Gyngor Gwynedd gynnal Arolwg o'r sefyllfa o safbwynt diogelwch y cyhoedd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Gruffydd yn eilio.

138.10.21 Cyng Aled Griffith - Gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd - Cob Porthmadog - Diffyg cynnal a chadw strwythur rhestredig - Caniatáu i lwyni dyfu allan o'r wal ar y Cob sy'n achosi difrod i strwythur y wal.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

139.10.21 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Tachwedd 9 – Hydref 30 2021, (Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)

- *Cynnig Cyng Dr Simon Brooks :- dewis cynrychiolydd o'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest.*
- *Cynnig Cyng Richard Williams :- **marchnad Heol y Parc** - cwestiynu gwerth y farchnad*
- *Cynnig Cyng Richard Williams:- **Clwb Chwaraeon Madog** – Llythyru'r Clwb i holi beth ydi'r gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal ar y safle .*
- *Cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards :- gyrru cais i Gyngor Gwynedd am fwy o oleuadau ar y lôn waelod o'r Clwb Hwyllo i gyfeiriad Borth y Gest.*
- *Cynnig Cyng Alwydd Gruffydd :- gyrru cais i Gyngor Gwynedd i drwsio'r fainc ar ben creigiau Tremadog.*

140.10.21 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- ail-gysylltu efo Kelly Edwards, Esgobaeth Bangor i ofyn am ymateb i lythyr 77.7.21 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

Nododd y Clerc bod swyddogion Cyngor Gwynedd wedi bod yn brysur iawn yn yr wythnosau diwethaf yn dilyn i fyny'r holl lythyrau na chafwyd ymateb iddynt ers rhai misoedd. Nodwyd fod y Prif Weithredwr ei hun, Dafydd Gibbard wedi cysylltu â'r Clerc yn dilyn derbyn llythyr 109.9.21 a'i fod wedi gweithredu ar y cais i wella'r sefyllfa.

Gohebiaeth :

141.10.21 STEFFAN JONES, Ymateb i lythyr 107.9.21 Dropped kerb

Penderfynwyd :- llythyru'n ôl i ofyn am ymateb llawn a gyrru copi at Dafydd Gibbard.

(Mae'r Clerc bellach wedi derbyn ymateb llawn a fydd yng ngohebiaeth cyfarfod mis Tachwedd)

142.10.21 GAREM JACKSON, Ymateb i lythyr 110.9.21 Canolfannau Iaith

Penderfynwyd :- derbyn y cynnig ganddo i ymweld â'r Cyngor ac estyn gwahoddiad iddo ef a'r Cynghorydd Cemlyn Rees Williams i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Llawn mewn person yn y Ganolfan am 18.30 ar Dachwedd 9fed, yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

143.10.21 G.L.JONES, Adroddiad ar offer chwarae Cae Bodawen

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth, sicrhau fod coed newydd yn cael ei roi ar y meinciau a gofyn am bris ar gyfer pob eitem sydd angen ei drwsio fel y gellir trafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Eiddo ym mis Tachwedd yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Linda Wyn Roberts yn eilio.

144.10.21 MELERI MAIR GRIFFITHS, Cais am ethol Cynghorydd i gynrychioli'r Cyngor ar gorff llywodraethol Ysgol y Gorlan

Penderfynwyd :- ethol y Cyng Aled Griffith i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio. Diolchwyd i'r Cyng Aled Griffith am gytuno i ymgymryd â'r gwaith.

145.10.21 UN LLAIS CYMRU, Ymgynghoriad ar jet skis (Ebst gyda linc i'r ddogfen 72 tudalen wedi ei yrru allan ar 21.9.21 – angen ymateb erbyn Tachwedd 1

Nodwyd fod problem Jet skis yn fater sydd wedi cael ei drafod sawl gwaith gan y Cyngor Tref a bod y Cyngorwyr yn ymwybodol o beryglon cam-ddefnydd o'r peiriannau yma. Maent yn syrthio rhwng dwy stôl gan nad ydynt yn dod o dan ddeddfwriaeth a rheolaeth cychod na moduron. Nid oes ychwaith gyfyngiadau oed arnynt ac nid oes angen trwydded na hyfforddiant i'w defnyddio ar y funud. Gwelwyd peth gwelliant yn ddiweddar ers i awdurdodau'r Harbwr fynnu bod y Jetskis yn gorfod cael eu cofrestru cyn cael eu defnyddio.

Penderfynwyd :- Ymddiried yn y Cadeirydd i ymateb i'r Adroddiad ar ran holl aelodau'r Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio. Cytunodd Cyng Llywelyn Rhys i weithredu ar y cynnig.

146.10.21 CYMDEITHAS YR IAITH, Cais (ebost) i gefnogi a llofnodi llythyr at Lywodraeth Cymru (Tai haf)

CYMDEITHAS YR IAITH, Copi o'r llythyr i'w lofnodi

Penderfynwyd :- fod y Cadeirydd yn arwyddo'r llythyr ar ran y Cyngor Tref a'r Clerc i'w yrru at Carol Jenkins i gael ei gynnwys yn y ddeiseb i'w gyflwyno i Mark Drakeford, yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

147.10.21 GETHIN RHYS, Adroddiad Archwiliad Mewnol Mai 2021

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth gyda diolch a chymeradwyaeth i'r Clerc am ei gwaith yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

148.10.21 ALED GRIFFITH, Lluniau problem parcio Tremadog

ALED GRIFFITH, Lluniau (electronig yn unig) Gosod cyfyngiadau parcio yn Nhremadog
Gweler Cofnodion 137.10.21 uchod.

149.10.21 LIZ SAVILLE ROBERTS, Anogaeth i ymateb i'r Ymgynghoriad ar Jet skis

Gweler Cofnodion 145.10.21 uchod.

150.10.21 CYFOETH NATURIOL CYMRU, Ymateb i lythyr 117.9.21 Cais i gael gweld 3 trwydded

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth.

151.10.21 HOWARD HUWS, Cylch yr iaith – Gwrthod Ceisiadau Cynllunio

Nodwyd fod y llythyr yn un buddiol iawn at bwrpas gwneud penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio gan iddo atgoffa'r Cyngor o faint o rymoedd sydd gan y Cyngor mewn gwirionedd. Cytunwyd y dylai pob Cyngorydd gadw copi ohono wrth law er mwyn cyfeirio eto pan yn ystyried Cais Cynllunio.

Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl i Howard Huws i ddiolch iddo am y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Gruffydd yn eilio.

152.10.21 FFORWM CYMUNEDOL LLECHI CYMRU, Cais am gynrychiolydd o'r Cyngor i ymuno â'r Fforwm

Penderfynwyd :- dewis Cyng Llywelyn Rhys fel cynrychiolydd y Cyngor a'r Cyng Ian Wyn Jones fel dirprwy yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

153.10.21 CARYS FERRIS, Ymateb i 177.4.21 ar 18.4.21

CARYS FERRIS, Ymateb pellach i 177.4.21 ar 18.4.21**SION BRYN ROBERTS, Clwb ieuencid**

Penderfynwyd :- trefnu cyfarfod rhwng Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Richard Williams â Sion Bryn i drafod y ffordd ymlaen yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

154.10.21 Materion Ariannol :**Derbyniadau :**

HSBC	Llog Banc Medi 2021	£	00.29
Valerie Lewin	Dychwelyd cyfraniad 11.2.20 i Wyl Gelf Calon Cymru ohiriedig	£	250.00

Biliau i'w talu :

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Medi 2021	£	47.35
2	Marian Roberts	Inc i'r printer	£	17.88
3	Marian Roberts	Costau Teithio Medi 2021	£	8.82
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Medi 2021	£	639.17
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Medi 2021	£	160.07
6	Bleddyn Rhys	Archwiliad Mewnol 2020-21	£	300.00
7	G L Jones	Archwiliad Cae chwarae Bodawen	£	272.40
8	Arena Group	Llungopio hyd at 22.9.21	£	31.80
9	Marian Roberts	Ad-daliad am brynu meicroffon	£	109.00
10	Llywelyn Rhys	Lwfans Cadeirydd 2021-2022	£	1,200.00
11	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm Lwfans Cadeirydd 2021-2022	£	300.00
12	Gardencraft	Llenwi tybiau blodau	£	120.00
13	Y Ganolfan	Gwersi Cymraeg mis Medi	£	120.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

GOLEUADAU NADOLIG 2021

PRIS GLASFRYN AM GOED NADOLIG (fel yllynedd)

2 x 15', 1 x 18' ac 1 x 25'

£899.52

AMCANBRIS R.J.ELECTRICS

£4,960.00+TAW

GARETH GRIFFITHS

£840.00

Rhodddwyd caniatad i'r Clerc i symud ymlaen efo trefniadau gwariant Goleuadau Nadolig 2021 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

155.10.21. Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais.: C21/0958/44/DT (wedi ebostio 1.10.21)

Lleoliad: Carreg Llam, Borth Y Gest , LL49 9TU

Bwriad : Adeiladu modurdy ffram dderw ar rafft concriid o dan do llechi

Penderfyniad :- DIM GWRTHWYNEBIAD

Ceisiadau wedi eu derbyn a'u gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr ar ôl cau'r Rhaglen :-

(b) Rhif Cais .: C21/0967/44/DT (wedi ebostio 7.10.21)

Lleoliad: 22 Heol Fadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BU

Bwriad: Dymchwel porth cefn presennol ac adeiladu porth ac ystafell gawod unllawr newydd yn ei le ynghyd a ffenestri gromen to brig i'r blaen a'r cefn

Penderfyniad :- DIM GWRTHWYNEBIAD

(c) Cais Gwasanaeth Trwyddedu | Licensing Service (ebost 12.10.21) ▲

Ymgynghoriad :: = Cais Trwydded Eiddo Newydd: Aldi, Porthmadog

Cais i newid oriau agor a gwerthu alcohol i rhwng 06.00 a 00.00.

Penderfyniad :- DIM GWRTHWYNEBIAD

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30.

Marian Roberts

(Clerc)

15.10.21

DRAFT